

Gwerthusiad o achos beirniadol (Pwy ydw i'n ei addysgu? Who am I teaching?) (ECAD6007)

**Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu
a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth
achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n
seiliedig ar ddigwyddiad beirniadol a arsylwyd.**

**Darpar athro: Joe Chucas
Rhif y myfyriwr: 2009357**

**Nifer o eiriau: 3768 (yn ogystal â 4 pedwar atodiad cyfwerth
â 1000 o eiriau)**



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Cynnwys

1) Cyflwyniad	3
2) Arsylwi.....	3
3) Methodoleg.....	4
4) Cyswllt gyda'r pedwar diben	6
5) Adolygiad llenyddiaeth	7
6) Adfyfrio a gwerthusiad o'r camau nesaf	10
7) Casgliadau	11
Rhestr Gyfeirio	12
Atodiadau	13

1) Cyflwyniad

Ystyrir achos beirniadol i fod yn ddigwyddiad (nodweddiadol neu'n annodweddiadol) mewn arfer proffesiynol arferol sy'n destun i ddadansoddiad o elfennau addysgegol. Ymddangosir nifer o'r digwyddiadau hyn yn *gyffredin* i arsylwyd arferol, ond mewn cyd-destun addysgegol ceir mewnwelediadau i effeithiolrwydd dulliau gwahanol o addysgu. Dywedwyd mai dadansoddiad gan yr ymchwilydd sy'n gwneud achos dinod beunyddiol yn feirniadol yn lle'n *ddibwys*, ac yn dynodi 'patrymau a gwerthoedd' arferion addysgol (Tripp 2012: 25).

Yn yr aseiniad hwn, ystyrir yn benodol yr achos o blentyn yn gweiddi ymatebion heb fyfyrrio ar eu perthnasoldeb i'r cwestiwn a ofynnwyd. Gor-gynhyrfwyd y plentyn, a elwir yn 'blentyn X' am weddill yr aseiniad, ac roedd yr ymatebion yn aml yn dod ganddo fe cyn i'r cwestiwn orffen. Gweiddodd ef dros bawb arall er bod yr athrawes wedi esbonio bod angen iddo fe ymdawelu a chadw ei llaw i fyny.

Mae'r digwyddiad hwn yn briodol oherwydd ei fod e'n hwyluso trafodaeth o nifer o elfennau dyfnach. Yn gyntaf, mae'n glir o'r plentyn sydd yn rhy awyddus i ymateb bod angen ystyried pwysigrwydd disgyblaeth yn y dosbarth; sut ydy athrawon yn sicrhau bod plant yn ymdawelu ar yr adegau cywir ac yn parchu ymatebion plant eraill, ac yn cadw at y dasg a osodwyd? Yn ail, sut mae athrawon i fod i gynllunio gwersi er mwyn ymglymu plant mewn ffordd gynhwysol? Mi fydd ymateb i'r cwestiynau yma yn ddefnyddiol fel darpar athro i wella ar gynllunio gweithgareddau addysgol ac arferion o fewn y dosbarth, fel y gwelir yn yr adran hwyrach ar werthusiad o'r camau nesaf.

Mae gweddill yr aseiniad hwn yn ymdrin â'r achos beirniadol mewn amryw o ffyrdd- yn gyntaf, mae esboniad o'r digwyddiad ei hun, cyn esbonio'r rhesymeg dros yr arddull a ddefnyddiwyd, a'r cysylltiad gyda pedwar diben Donaldson. Yn dilyn yr adrannau hyn, cynhwysir ymchwil academiaidd priodol yn yr adran lenyddol, cyn gorffen gydag adfyfyrdod, a gwerthusiad o'r camau nesaf. Mi fydd yr adran olaf yn crynhoi'r aseiniad gan ymdrin â'r ddau gwestiwn uchod.

2) Arsylwi

Sail yr arsylwad a ystyrir yw ymddygiad bachgen ym mlwyddyn 8 (12-13 mlwydd oed) yn ystod gwers fugeiliol (gyda ffocws ar rifedd) yn y prynhawn. Ar y cyfan, roedd disgyblaeth effeithiol trwy gydol y wers, hyd yn oed yn ystod adegau o ddryswch gyda datrys cymedr, canrannau a ffracsiynau. Roedd un plentyn yn gor-gynhyrfu ac yn gweiddi mas er bod yr athrawes wedi

esbonio bod angen iddo fe ymdawelu a chadw ei llaw i fyny, a hefyd i beidio ymateb os nad oedd e'n gwybod yr ateb cywir. Cyfeirir at y plentyn hwn fel 'Plentyn X' am weddill yr aseiniad.

Cafodd y wers ei ymgymryd gyda mwgwd ar wyneb yr athrawes, yn ogystal â'r rhagofalon priodol (diheintio cyn dosbarthu taflenni ayyb). Er bod hwn yn angenrheidiol yn ystod cyfnod y *Gofid Mawr* (gyda phresenoldeb y goronafeirws yng Nghymru), mae'n bosib iawn fod hwn wedi rhwystro rhyngweithio effeithiol gyda'r plant oherwydd bod elfennau o gyfathrebu di-eiriau yn cael eu colli heb weld hanner gwaelod gwyneb yr athrawes.

Ymddangoswyd bod yr athrawes wedi creu awyrgylch addysgol ble oedd plant yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu mynegi ei hun wrth ystyried yr amgylchiadau. Mae hwn yn glir o'r ffaith bod plant wedi ymateb i gwestiynau yn awyddus ac yn hyderus. Fodd bynnag, roedd effaith y cyfnod clo yn glir- roedd lefelau cymreictod y plant yn isel, ac amlygir gan ymddygiad plentyn X bod y plant heb ail-ymgyfarwyddo gydag ymddygiad arferol o fewn yr ystafell ddosbarth.

Ysgol pob oed o lai na 700 o blant ydoedd, gyda chyfran 'sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol' am gymhwysedd i ginio ysgol am ddim, llai na 10% gydag anghenion dysgu ychwanegol ac 'ansawdd addysgu'n gyson dda' (Estyn). Doedd yr ysgol ddim yn un amlhiliol iawn, ac roedd lleiafrif (ond lleiafrif mawr, dros dreian) o blant yn siarad Cymraeg gartref. Roedd dosbarthiadau yn weddol fach- roedd yr un a arsylwyd yn cynnwys llai na 20 o ddisgyblion. Roedd y dalgylch yn cynnwys ystod eang o gartrefi yn nhermau statws economaidd-gymdeithasol.

3) Methodoleg

Mae arsylwadau yn elfen bwysig o addysgeg gan eu bod nhw yn hwyluso dealltwriaeth ddofn o ba ddulliau o addysgu sy'n effeithiol mewn cyd-destunau penodol. Mae arsylwadau yn galluogi'r ymchwilydd i arsylwi pobl go iawn mewn sefyllfaoedd arferol, ac felly yn gallu rhoi mewnwelediadau i'r ystafell ddosbarth mewn ffordd na cheir trwy ddata yn unig. Yr unig wendid amlwg i'r dull o arsylwi a ddefnyddiwyd yw'r ffaith ei bod yn rhwystro ymchwilydd rhag llywio'r wers fel y dymunant.

Defnyddiwyd methodoleg o astudiaeth achos, arsylwi anghyfranogol ac achos beirniadol yn yr aseiniad hwn am nifer o resymau. Yn gyntaf, dewiswyd astudiaeth achos oherwydd ei bod hi'n hwyluso lefel uchel o fanylder. Mae hi hefyd yn dangos sefyllfaoedd sy'n bodoli yn yr ystafell ddosbarth ac yn galluogi defnydd ymarferol o syniadau haniaethol. Dadleuwyd bod hwn yn fwy effeithiol na chyfweiliadau oherwydd bod tueddiadau personol yn gallu effeithio sut mae

digwyddiad yn cael eu cofnodi. Fodd bynnag, dadleuwyd gan Kumar (2014:2) fod dehongliad arsylwyd o ddigwyddiad yn gallu amrywio'n arwyddocaol ac felly ddim yn gwbl ddiuedd.

Yn ail, roedd arsylwad anghyfranogol yn addas oherwydd eu bod e'n caniatáu arsylwyr i fod yn ddiuedd. Yn ystod arsylwad anghyfranogol ni cheir rhyngweithio (megis gofyn cwestiynau neu gynorthwyo athrawon) rhwng cyfranogwyr a'r arsylwyd sy'n gallu arwain at ganlyniadau gwahanol o fewn yr ystafell ddosbarth. Mae'n rhaid i ni ystyried y problemau gyda'r dull hwn, sy'n cynnwys yr *effaith Hawthorne* (Kumar, 2014). Mae pobl yn ymateb yn wahanol pan maent yn cael eu harsylwi, ac mae'n bosib bod y digwyddiad a gofnodwyd ddim yn arferol ac wedi cael ei gwyrddroi. Er enghraifft, mae'n bosib bod plentyn X yn y cyd-destun hwn wedi gweiddi ar draws plant eraill oherwydd bod e'n meddwl bod unigolion o fewn y wers yn cael eu hasesu, ac felly eisiau ymddangos ei gallu a'i frwdfrydedd. Mae'n bosib felly gyda'r achos hwn bod dull arall fel cyfweiliad yn gallu osgoi effaith presenoldeb yr ymchwilydd ar y dosbarth, ond dylid ystyried bod cyfweiliadau yn galluogi tueddiadau'r athrawes i effeithio ar sut mae'r achos beirniadol yn cael ei gofio.

Yn drydydd, Roedd achos beirniadol yn ddull addas oherwydd bod ymchwiliad dyfnach mewn i ddigwyddiad 'annodweddiadol' dyddiol yn gallu arwain at ddealltwriaeth well o batrymau ac arferion addysgu (Tripp, 2012: 40). Dehonglir arwyddocâd y digwyddiad trwy lens y llenyddiaeth sydd ar gael, ac felly mewn amryw o ffyrdd gan gynnwys lensys Brookfield, *études* Foster (2017a) a 'pharth datblygiad procsimol' Vygotsky (1978). Defnyddiodd yr arsylwad y fethodoleg uchod oherwydd ei fod e, wrth bwyso a mesur, yn caniatáu manylder, lefelau is o duedd bersonol ac ymchwiliad dwfn.

Mae pedwar elfen i achos beirniadol effeithiol, sef y canlynol- hunanymwybyddiaeth, disgrifiad manwl o'r digwyddiad, hunan arsylwi a hunan arfarniad (Thiel, 1999). Sicrhawyd y rhain mewn nifer o ffyrdd. Yn gyntaf, dangoswyd hunanymwybyddiaeth yn yr ymchwil gan sicrhau bod yr ymchwilydd wedi ei lleoli o fewn y dosbarth gyda safbwynt o'r dosbarth cyfan heb ymyrryd gyda rheolaeth y wers gan yr athrawes. Cofnodwyd disgrifiad manwl o'r digwyddiad er mwyn helpu dehongliadau addas, fel y gwelir yn yr atodiadau. Cyflawnwyd hunan arsylwi a hunan arfarniad trwy adfyfrio ar y gwelliannau posib byddai'r arsylwyd yn gwneud gyda chyfle arall, yn ogystal â beirniadaeth o'r profiad a welir yn yr adran adfyfrio, yn lle ei ddisgrifio yn unig.

4) Cyswllt gyda'r pedwar diben

Wrth wraidd cwricwlwm newydd Llywodraeth Cymru amlinellir pedwar diben. O dan y cwricwlwm hwn, datblygir plant i fod yn; ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, unigolion iach a hyderus, cyfranwyr mentrus a chreadigol, ac yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus. Pwrpas y rhain fydd 'dylanwadu ar gynllunio, addysgu ac asesu' er mwyn sicrhau ffyniant plant mewn dull cyfannol. Mae disgwyl i'r pedwar diben cael eu hymgorffori ym mhrofiad yr holl blant yng Nghymru, fel y gwelir yn y ffigwr isod. Y pedwar diben yw'r craidd i sut mae ysgolion yng Nghymru yn gweithredu, yn ogystal â'r ffordd mae rhanddeiliad yn darparu cefnogaeth i'r ysgolion. Gellir felly ystyried bron pob gweithgaredd addysgol yn nhermau sut y maent yn cyfrannu tuag at y pedwar diben. I grynhoi felly, mae'r pedwar diben yn berthnasol oherwydd eu bod yn ddatganiad cryno o'r hyn mae'r byd addysg yn anelu am gyflawni, yn ogystal â set o egwyddorion a dull o werthuso llwyddiant.



Ffigur 1: Y Pedwar Diben wrth wraidd y cwricwlwm

Mae cysylltiad rhwng yr achos beirniadol a ystyrir a'r pedwar diben mewn nifer o ffyrdd, sydd yn ein hysbysu ni fod haenau i'r digwyddiad cymhleth hwn, ac felly bod gwerthusiad o'r camau nesaf (fel y gwelir yn yr adran adfyfrio) yn weddol gymhleth. Yn gyntaf, mae tarfu ar y wers gan weiddi dros blant eraill yn groes i'r elfen ddinasyddiaeth- ni pharchir 'anghenion a hawliau pobl eraill' i fynegi ei hun gan fynnu sylw.

Er hynny, gellir dweud bod natur ‘ymholgar’ y plentyn a’i fwynhad wrth ddatrys problemau yn elfen bwysig o fod yn *ddysgwyr uchelgeisiol, galluog*. Mae’n bwysig i fagu’r chwilfrydedd hwn, ond hefyd sicrhau ei fod e’n dysgu *cyfathrebu effeithiol*, hynny yw gwybod yr adegau cywir i fynegi ei hunan. Mae’r achos beirniadol hefyd yn berthnasol i’r diben hwn oherwydd fe arsylwir yr achos o fewn gwrs fugeiliol gyda ffocws ar rifedd. Er mwyn cyflawni’r diben hwn mae angen plant gyda dealltwriaeth o ‘ddefnydd rhif effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau’, gan gynnwys cysyniadau mathemategol addas a dehongli data.

Y diben perthnasol olaf i’w crybwyll yw datblygu *cyfrannwyr mentrus, creadigol*. Mae *mentro’n bryllog* yn elfen o’r diben hwn, a ystyrir yn gyfansoddyn o chwarae ‘eu rhan yn llawn’ trwy gydol ei oes. Does dim cysylltiad sylweddol amlwg gyda’r diben o *unigolion iach, hyderus*.

5) Adolygiad llenyddiaeth

Cyn deall sut mae’r achos beirniadol yn cysylltu gyda’r llenyddiaeth, mae’n rhaid yn gyntaf deall arwyddocâd, sef amlygu pa arferion addysgegol sy’n effeithiol a pa rhai sy’n wastraff amser (neu’n waeth, yn gwaethgu dysgu). Mae achosion beirniadol yn gallu bod yn adnodd pwysig i athrawon a chyn-orthwyr, yn hyrwyddo gwerthusiad o arferion addysgol ac yn gallu sbarduno trafodaeth ddofn o’r dulliau addysgu gorau. Yn ychwanegol, ceir lefelau uwch o hunanymwybyddiaeth o ran credoau gwallus (er enghraifft am werth adnoddau megis byrddau gwyn mini) (Joshi, 2018).

Fel y dwedwyd eisoes, un o’r rhesymau mae’r digwyddiad achos a ystyrir yn briodol yw oherwydd ei fod e’n gwneud i ymchwilyr ystyried y cwestiwn canlynol: Sut ydy athrawon yn sicrhau bod plant yn ymdawelu ar yr adegau cywir ac yn parchu ymatebion plant eraill, ac yn cadw at y dasg a osodwyd? Ymddengys mai un o’r ffyrdd amlycaf yw’r hyn a welir yn yr ystafell ddosbarth gan yr athrawes yn y sefyllfa hon, sef gweithgarwch addysgol sy’n cadw at egwyddorion *purposeful practice*.

Purposeful practice

Yn ystod y wers a arsylwyd, defnyddiwyd y dull o *purposeful practice* a amlinellwyd gan Barton (2018). Ystyr *purposeful practice* yw gweithgareddau sy’n dilyn y pum egwyddor ganlynol; profiad cynnar o lwyddiant, nifer uchel o gyfleoedd i ymarfer y dull gweithredu, a chyfleoedd i fyfyrion ddyfnach ar y pwnc. Derbyniodd y plant gwestiwn agored gyda llawer o ryddid i ddewis sut i ymdrin â’r pwnc. Yn lle cyfres o gwestiynau ar wahân, cafwyd rhestr o ffracsiynau, ac fe ddewisodd y plant ba ffracsiynau i ychwanegu at ei gilydd. Gofynnodd y cwestiynau dilynol yn y cynllun os oedd y plant yn medru ychwanegu’r rhifau at ei gilydd er mwyn cael ateb agos at 1. Roedd gan y cwestiwn hwn y fantais o wahaniaethu’r plant o ran galluedd- roedd plant mwy galluog yn gallu ychwanegu nifer

o ffracsiynau cymhleth at ei gilydd tra roedd eraill yn cadw at ffracsiynau symlach. Roedd e felly yn bosib i'r athrawes ymglymu pob plentyn gyda'r gweithgaredd, a'i chadw ar dasg. Dywedwyd bod y dull hwn yn helpu datblygu dealltwriaeth plant o gysyniad, oherwydd eu bod nhw yn gorfod myfyrio'n ddyfnach, ond yn ogystal ei fod e'n helpu gyda'r elfen wahaniaethu rhwng plant o alluoedd gwahanol.

Gwelwyd nifer o fanteision i'r dull hwn. Roedd llwyddiannau cychwynnol y plant gyda'r ffracsiynau yn rhoi hyder i'r plant mewn sefyllfa ble mae'r pwnc (ffracsiynau) yn gallu peri gofid. Cafwyd hefyd nifer fawr o gyfleoedd i'r plant ymarfer gyda chwestiynau gwahanol, ac yn olaf roeddent yn cael dewis pa mor heriol oedd y gwaith- roedd myfyrio dyfnach yn bosib i'r rhai byddai wedi syrffedu gyda chwestiynau sylfaenol. O fewn addysgeg fathemategol, gelwyd y gweithgareddau hyn yn études, ble mae'r bwriad yn fwy agored na chwestiynau confensiynol ond mae'n rhaid defnyddio dull penodol (Foster, 2017a). Yn y cyd-destun hwn, y bwriad oedd adiad gyda ffracsiynau ond roedd llawer o ryddid gyda dewis pa rifau oedd yn cael eu defnyddio ac roedd nifer cyfyngedig o ddulliau o gael yr atebion. Mae'r arddull hon o addysgu yn ffordd addas o greu *cyd-destun dibys ar gyfer dysgu* (Rosenshine, 2012), oherwydd bod y plant yn gallu cynyddu eu hyder wrth ganolbwyntio ar yr hyn maent yn gallu gwneud yn barod, ond hefyd herio eu hunan wrth wneud y problemau yn fwy anodd. Dwedir gan Rosenshine (2012) bod angen cyfradd lwyddiant uchel yn yr ystafell ddosbarth, yn ogystal ag ymarfer annibynnol helaeth, sef yn union y fath o weithgaredd a cheir yn y sefyllfa hon.

Parth datblygiad procsimol

Ffordd arall y sicrhodd yr athrawes fod y plant yn ymdawelu ac yn cadw ar dasg oedd trwy wneud yn siŵr bod y plant yn gweithredu ar y dasg o fewn eu 'parth datblygiad procsimol'. Mae hwn hefyd yn ateb y cwestiwn canlynol, a chrybwyllwyd eisoes: sut mae athrawon i fod i gynllunio gwersi er mwyn ymglymu plant mewn ffordd gynhwysol?

Mae'r dull uchod o gael y plant i benderfynu ar dasgau ei hun yn lle mynd trwy restr o gyfrifiadau yn hyrwyddo gweithgarwch gwybyddol yn lle ymddygiadol, fel y awgrymir gan Mayer (2004). Dywedir felly bod athrawon yn gallu ymglymu plant gyda darlithoedd os yw'r darlithoedd yn sbarduno meddwl dyfnach ar y pwnc- does dim rhaid i'r gweithredoedd fod yn gorfforol, gwelir dysgu trwy wrando a myfyrio. Dadleuwyd gan Willingham (2009) fod 'memory is the residue of thought', neu'n symlach bod pobl yn cofio am rywbeth o feddwl amdani'n ddyfnach. Gwelwyd hwn ar waith yn ystod y wers rifedd, ble doedd yna ddim ysgrifennu o gwbl. Roedd y wers yn effeithiol er bod cyn lleied o gofnodi'r wers ar bapur wedi digwydd, ac roedd y cynnwys yn heriol i'r mwyafrif o'r plant, a oedd yn golygu bod y plant yn gallu cyflawni'r gwaith gyda hyfforddiant.

Roedd y plant felly yn gweithredu o fewn eu 'parth datblygiad procsimol' (Vygotsky, 1978). Roedd y gwaith felly yn ddigon heriol i bawb ac roedd yr athrawes yn barod iawn i gydnabod ymdrech. Roedd hwn yn cyfrannu tuag at '*classroom climate*' gyda rhyngweithio effeithiol rhwng y plant a'r athrawes. Ystyrir hon i fod yn gysylltiedig gyda chanlyniadau da am fyfyrwyr gan Coe et al (2014).

Damcaniaeth systemau ecolegol

Wrth gwrs, mae hi'n amhosib i athrawes rheoli ymddygiad plant ym mhob ffordd. Er bod yr athrawes wedi cynllunio gwrs hynod o effeithlon, mae dylanwadau tu fas i'r ystafell ddosbarth yn gallu effeithio ar allu plant i ddysgu ar gyfradd gadarn. Un o'r damcaniaethau sy'n esbonio hwn orau yw damcaniaeth systemau ecolegol Bronfenbrenner (1917).

Credwyd bod 5 elfen i ddatblygiad person gan Bronfenbrenner (1917), gan gynnwys y systemau canlynol: micro, meso, eco, macro a chrono. Y system ficro yw'r un agosach at y person, ac mae'n cynnwys adre ac ysgol, sef yr elfen fwyaf dylanwadol ar blentyn X. Y system meso yw'r rhyngweithiad rhwng elfennau gwahanol o'r system ficro- yn y cyd-destun hwn, y perthnasau rhwng rhieni plentyn X a'r athrawon fydd hyn.

Mae'n rhaid hefyd ystyried y system eco- sef sefyllfaoedd ble nad yw plentyn X yn cymryd rhan, ond eto yn cael eu heffeithio, er enghraifft gweithle rhiant. Mae gan hwn effaith anuniongyrchol ar blentyn X gan fod elfennau tu fewn i'r micro system yn cael ei effeithio. Er enghraifft, gallai diswyddiad rhiant achosi straen adref, sydd wedyn yn achosi i'r plentyn bryderu. Yn olaf, mae'r system facro, sy'n cynnwys agweddau ac ideoleg y diwylliant. Mae hwn yn cynnwys diwylliant economaidd-gymdeithasol, rhanbarthol ac egwyddorol- er enghraifft agwedd y diwylliant yn gyffredinol o gwmpas plentyn X tuag at addysg.

Yn olaf, ystyrir y system chrono, sef newidiadau a thueddiadau gydol oes a newidiadau diwylliannol dros amser. Mae'n bosib bod ymddygiad plentyn X wedi ei beri gan newidiadau tu fas i'r ysgol, megis tensiwn o fewn y gartref. Mae'n bwysig nad yw ymchwil yn diystyru posibilrwydd bod y systemau ecolegol hyn yn cael effaith arwyddocaol.

Llenyddiaeth ehangach

Dylid ystyried y dadansoddiad uchod yng nghyd-destun egwyddorion cyffredinol addysgegol, sy'n cynnwys creu 'cymuned o ddysgwyr' (Brown et al, 1994) a pherthnasedd, ymglymiad dysgwyr yn y dasg, disgyblaeth effeithlon, gwahaniaethu tasgau o ran galluedd, sgaffaldio, asesiad ffurfiannol a meithrin perthnasau parchus. Mae tasg yr athro yn un haenog ble mae'n rhaid cyflwyno a chyfathrebu cysyniadau yn ogystal â chadw at yr arferion addysgol mwyaf addas.

6) Adfyfyrrio a gwerthusiad o'r camau nesaf

Canolbwyntiwyd ar y mewnwleidiadau o'r astudiaeth achos yn yr adran hon trwy adfyfyrrio ar y digwyddiad beirniadol o safbwyntiau gwahanol. Mae hwn yn bwysig er mwyn deall pa gamau nesaf sy'n berthnasol ac er mwyn deall yr ymarferion gorau addysgegol.

Lensys Brookfield

Adfyfyriwyd ar yr achos beirniadol yn yr aseiniad hwn yn bennaf trwy lensys Brookfield, sy'n cynnwys pedwar lens gwahanol- hunanfyfyrdod, profiad y myfyrwyr, profion cyfoedion a llenyddiaeth ddamcaniaethol. Hunanfyfyrdod yw sylfaen *addysgu adfyfyriol* (Brookfield, 1995), sef ystyried y rhagdybiaethau tu ôl i'r dulliau o addysgu sy'n cael eu dewis. Er enghraifft, yn dibynnu ar brofiadau blaenorol athrawon, mae'n bosib ystyried yr achos beirniadol unai fel diffyg disgyblaeth ar ran plentyn X neu ddiffyg cyfleoedd i fynegi ei hun. Mi fydd y rhagdybiaeth hon yn effeithio'r ymateb o fewn yr ystafell ddosbarth gan yr athrawes (er enghraifft i ddisgyblu neu ddim). Yn ogystal, mae'n rhaid ystyried gwaith Hill et al (2008), sy'n awgrymu bod arsylwadau yn ffordd aneffeithiol o arsylwi perfformiad athrawon. Am arsylwad manwl cywir mae angen arsylwi ar yr athro gyda phum dosbarth gwahanol yn ogystal ag ymgymryd pob arsylwad gan bump arsylwydd (Hill et al, 2008), sydd yn amlwg ddim yn ddichonadwy gan amlaf.

Yr ail lens i'w ystyried yw profiad y myfyrwyr. Yn y cyd-destun hwn, golygai hynny ystyried meddylfryd plentyn X ar y pryd. Roedd y plant i gyd heb weld eu ffrindiau llawer ers dechrau'r cyfnod clo ac felly yn cynhyrfu'n hawdd o allu cymdeithasu ac ymateb i bobl tu fas i'w swigen benodol. Mae hwn yn berthnasol iawn i'r ymddygiad a welir yn yr ystafell ddosbarth, gan fod y plant heb ail-ymgyfarwyddo gyda bywyd ysgol eto. Cafon nhw anawsterau gyda chadw at 'ddwylo i fyny' yn lle bloeddio.

Y trydydd lens i'w ystyried yw profion cyfoedion, sef safbwynt yr athrawes ar yr hyn a ddigwyddodd. Deallir o'i safbwynt hi bod plentyn X ddim yn cael lefel uchel o sylw adre ac felly yn ceisio digolledu yn yr ystafell ddosbarth a gyda'i ffrindiau trwy fynnu sylw.

Trafodwyd y bedwaredd lens o lenyddiaeth ddamcaniaethol yn barod yn yr aseiniad hwn, ond dylid ystyried yn benodol pwysigrwydd *damcaniaeth llwyth gwybyddol*, a hyrwyddir hefyd gan Dr Dylan Wiliam (CESE, 2017). Dwedir gan Dr Wiliam fod ymglymiad gwybyddol yn allweddol i ddysgu, a bod y ddamcaniaeth hon yn canolbwyntio ar ddysgu fel proses o ychwanegu gwybodaeth newydd

at gof tymor-hir. Trwy herio'r meddwl a gorfodi iddo ganolbwyntio ac ymdrechu rhywfaint ar destun penodol, sbardunir defnydd cof. Fel y dwedir yn gynharach yn yr aseiniad hwn, *memory is the residue of thought*- mae'n rhaid pwysleisio myfyrdod fel rhan o'r broses ddysgu. Ymglymwyd plentyn X yn glir yn y broses hon trwy'r wers rhifedd- roedd rhaid iddo fe esbonio ei broses fathemategol yn glir er mwyn cyfrifo'r atebion i hafaliadau gyda ffracsiynau a degolion.

Camau nesaf

Gellir dadlau bod nifer o ffyrdd ymlaen gallwn ystyried. Er bod hi'n glir bod yr athrawes wedi creu awyrgylch agored ac ymglymu plant mewn gweithgarwch defnyddiol, mae'n bosib bod rheolau cliriach ar boster rheolau dosbarth ar wal yr ystafell ddosbarth yn gallu cyfleu'r ymddygiad a ddisgwylir.

Yn anffodus, oherwydd y Gofid Mawr (hynny yw, presenoldeb y Goronafeirws yng Nghymru), mae hi'n anodd sicrhau cysondeb gyda'r hyn a ddisgwylir gan blant. O fewn yr ysgol a arsylwyd, symudodd yr athrawon o ddosbarth i ddosbarth fel bod y plant yn aros o fewn yr un *swigen*. Oherwydd hynny, byddai rhaid i'r athrawes gymryd y poster gyda hi- sy'n amlwg yn anymarferol.

Er hwn, mae'n bosib cynnal gwers ar y pwysigrwydd o wrando ar eraill, mynegiant agored a gwerth trafodaeth ddofn, er enghraifft trwy 'munud i feddwl', neu ddathlu 'diwrnod hawliau dynol' gyda'r plant, sef y 10fed o Ragfyr er mwyn trafod yr elfennau hyn.

Datblygiad proffesiynol

Mae'r gwerthusiad beirniadol hwn ar astudiaeth achos wedi cyfrannu at fy natblygiad proffesiynol mewn nifer o ffyrdd. Yn gyntaf, mae gen i ddealltwriaeth well o'r hyn sy'n gweithio o fewn yr ystafell ddosbarth. Gwn fod dulliau penodol o addysgu megis *études* mathemategol yn gallu bod yn effeithiol, a bod cadw at egwyddorion *purposeful practice* yn helpu cadw plant ar dasg ddefnyddiol ac felly o fewn Parth Datblygiad Procsimol Vygotsky. Yn ail, hyderaf fod gennyf ymwybyddiaeth well o'r pedwar diben a'u perthnasedd parthed cynllunio gwersi ac i sicrhau bod y pedwar diben wrth wraidd yr hyn dwi'n eu gwneud fel athro. Yn drydedd, deallaf yn gyfannol pwysigrwydd ystyried achos beirniadol o safbwyntiau gwahanol, er enghraifft yn nhermau *Lensys Brookfield* neu effaith systemau ecolegol ar Blentyn X.

7) Casgliadau

Trafodwyd nifer o elfennau dyfnach yn yr aseiniad hwn o edrych ar astudiaeth achos o blentyn a oedd yn rhy awyddus i ymateb cwestiynau athrawes ac felly yn gweiddi dros blant eraill. Yn yr

adrannau uchod, ystyriwyd sut mae athrawon yn sicrhau ymglymiad ar dasg, ymdawelu ymysg plant a sicrhau bod gwersi yn cael eu hymgymryd mewn ffordd gynhwysol.

Mae'r ddealltwriaeth hon yn ddefnyddiol fel darpar athro oherwydd ei bod yn galluogi'r athro i wella ar gynllunio gweithgareddau addysgol ac arferion o fewn y dosbarth. Mae'n glir o'r gwerthusiad bod angen cyfathrebu effeithiol o ymddygiad addas, yn bosib trwy drafodaeth o faterion cyfoes, *munud i feddwl*, neu boster o fewn yr ystafell ddosbarth.

Ystyriwyd y safonau proffesiynol yn yr adrannau blaenorol yn anuniongyrchol. Ystyriwyd *addysgeg* trwy drafodaeth o'r dulliau gorau o addysgu, ystyriwyd *arloesi* yn nhermau ffyrdd newydd o ddysgu megis *études* mathemategol ac fe ystyriwyd *arweinyddiaeth* trwy ddefnydd *purposeful practice*, ble mae'r plant ei hun yn arwain y dysgu.

Yn ystod yr aseiniad hwn, defnyddiwyd methodoleg o astudiaeth achos trwy arsylwi anghyfranogol ac fe'i cyfiawnhawyd fel y ffordd fwyaf addas, yn ogystal ag ystyried rôl y pedwar diben wrth wraidd y cwricwlwm newydd. Ystyriwyd wedyn y cyswllt gyda'r parth datblygiad procsimol, y ddamcaniaeth systemau ecolegol a lensys Brookfield er mwyn deall y camau nesaf sy'n berthnasol am fy natblygiad proffesiynol.

Rhestr Gyfeirio

- Arthur, J. et al. 2012. Research Methods and Methodologies in Education London: SAGE.
- Barton, C. 2018. How I Wish I'd Taught Maths: Lessons Learned from Research, Conversations with Experts, and 12 Years of Mistakes. John Catt Educational Limited.
- Berne, E. 2016. Transactional Analysis in Psychotherapy: A Systematic Individual and Social Psychiatry. Pickle Partners Publishing.
- Bronfenbrenner, U. 1979. The Ecology of Human Development: Experiments by Nature and Design. Cambridge, Massachusetts: Harvard University Press.
- Brookfield, S. 1995. Becoming a Critically Reflective Teacher. San-Francisco: Jossey-Bass. 1995.
- Brown, A. L., & Campione, J. C. (1994). Guided discovery in a community of learners. In K. McGilly (Ed.), Classroom lessons: Integrating cognitive theory and classroom practice (p. 229–270). The MIT Press.
- CESE: Centre for Education Statistics and Evaluation. 2017. Cognitive Load Theory: research that teachers really need to understand.
- Coe R, Aloisi C, Higgins S et al. 2014. What makes great teaching? Review of the underpinning research. Sutton Trust, October 2014. London: Sutton Trust. Available at: suttontrust.com/researcharchive/great-teaching.

- Cohen, L., Manion, L., & Morrison, K. 2018. Research Methods in Education. London: Routledge.
- Estyn. [Arlein] <https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu>
- Fletcher-Wood, H. 2016. Ticked off. Carmarthen: Crown House Publishing Ltd.
- Foster, C. 2017a. Mathematical etudes, NRICH. Available at: <https://nrich.maths.org/13206>
- GAGC: Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus (Llywodraeth Cymru). 2018. [Arlein] <https://hwb.gov.wales/api/storage/8008631d-2143-4326-96dd-a3b3498b8f44/ysgolion-yng-nghymru-yn-gweithredu-fel-sefydliadau-sy-n-dysgu.pdf>
- Hill, H. C., Blunk, M., Charalambous, C., Lewis, J., Phelps, G. C., Sleep, L. 2008 Mathematical knowledge for teaching and the mathematical quality of instruction: An exploratory study. *Cognition and Instruction*, 26, 430–511.
- Hwb Cymru [Arlein] <https://hwb.gov.wales/professional-development>
- Joshi, K. (2018). Critical Incidents for Teachers' Professional Development. *Journal of NELTA Surkhet*, 5, 82-88.
- Kumar, R. (2014) *Research Methodology*. London: SAGE.
- Kumar, R. 2014. *Research Methodology*. London: SAGE.
- Llywodraeth Cymru. 2018. [Arlein] <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/cwricwlwm-i-gymru-cwricwlwm-am-oes.pdf>
- Mayer, R. 2004. Should There Be a Three-Strikes Rule Against Pure Discovery Learning?. *The American psychologist*. 59. 14-9. 10.1037/0003-066X.59.1.14.
- McLeod, S. A. (2013). Kolb - Learning Styles. *Simply Psychology*. Available at: www.simplypsychology.org/learning-kolb.html (Accessed 03 April 2020)
- Rosenshine, B. Principles of Instruction: Research-Based Strategies That All Teachers Should Know. *American Educator* , v36 n1 p12-19, 39 Spr 2012.
- Thiel, T. (1999). Reflections on critical incidents. *Prospect*, Vol. 14 (1), pp.44-52.
- Tripp, D. 2012. *Critical incidents in teaching: developing professional judgement*. London : Routledge.
- Tripp, David. *Critical incidents in teaching*. London ; New York : Routledge, 2012
- Vygotsky, L. S. 1978. *Mind in society: The development of higher psychological processes* Cambridge, Mass.: Harvard University Press.
- Willingham, Daniel. 2009. *Why Don't Students Like School?: A Cognitive Scientist Answers Questions About How the Mind Works and What It Means for the Classroom*. 10.1002/9781118269527.

Atodiadau

Gweler isod 4 ffurflen nodiadau maes, yn ogystal a 4 ffurflen adnabod digwyddiad critigol

Y wers gyntaf

~~Y wers gyntaf~~ - ENGLISH	Researcher: Joe CHUCAS
OBSERVATION / FIELD NOTES (Questions adapted from Fletcher Wood (2016))	
Date and time, year group: 8F, 10-11 am	
Lesson details: (Context and focus - /AoLE/subject- is it near start of end of unit of study? Indoors/outdoors? Ability range? Any particularly relevant information). 'Life in the secret service' - expectation & reality. Indoors. Range of ability. English lesson. Creative task to discuss the contrast between their assumptions about the life of an undercover operative (from film & TV) and the more mundane activities in which they engage (such as surveillance).	
Classroom culture (What is the classroom 'vibe.'? What do attitudes, dispositions, behaviours towards learning seem like at this point in time?) 'Lively' class. Class on task and engaged but very inquisitive. Much direction and open discussion required to keep their attention.	
Objectives (What happens in the environment that communicates the purpose of the experiences? What can be observed regarding the way lesson activities relate to these purposes?) Open discussion, leading questions and anecdotes communicate the creative nature of the task. Specific written questions - 'How was the life of a spy different from how you imagined?' kept the pupils on task, while more open questions - 'What goes to mind when you think of spies?'	
Direction (What can be observed that helps learners understand what they are engaging in? What in the environment helps them understand how to achieve well?) The handbook included a number of extracts to help provide more insight regarding the task at hand. These were read as a group aloud, using a whiteboard to indicate particularly important points.	

	Access and challenge (What can be observed in the environment that enables engagement of learners? What can be observed regarding levels of challenge?) - Particular extracts ~~of~~ ^{they} were very challenging in terms of vocabulary (reference, detraction, Monday) ↑ The reading level was higher than that of the class, ~~over~~ ^{some} ~~some~~ ^{remember} ~~app~~ ^{of} ~~class~~ ^{appeared} overwhelmed or disengaged. Assessment (Can anything be observed about how student's existing knowledge is used? Can anything be observed regarding the development of knowledge during or after the experience?) - Responses to questions were very ~~engaged~~ ^{comprehensive} and appropriate, and vocabulary was improved. * Already familiar words were complemented by synonyms - 'inference' was taught as 'reading between the lines'. * 'Detraction' of touch was explained in contrast to heavy-handedness. Specifics / Critical Incidents (Are there moments which cause you to consider aspects of practice when you come across them in future teaching?) - ^{giving} ^{ADD} ^{yn} ^{goned} ^{then} ^{or} ^{okay} ^{Phelan} A missing sheet on some handbooks delayed engagement on many some pupils. - A One child read ~~aloud~~ ^{aloud}, but other children laughed when he mispronounced particular words. ↑ The reading age of the material was 16 years old, which was rather challenging for a year 8 pupil. - One child shouted out responses without considering whether reflection on his answers were necessary, and was sometimes off-mark. - A very able child with advanced abilities did not appear sufficiently challenged.
--	--

CRITICAL INCIDENT IDENTIFICATION RECORD

Details relevant to the research context. Date/time. Age/Stage of group. People involved. Contextual information from field notes.	Tuesday 10am. 19 pupils. Some difficulties in keeping the class quiet, and lots of interactions between pupils throughout. Questions strongly answered as lively discussion stimulated.
What happened? A detailed description of what you observed and what thoughts on pedagogy and practice occurred to you as a result, looking towards your research.	Observation, Ready, Reflect I observed a lively class that was brought to engage well with a class questions on their workbooks due to well-placed points of discussion ~~extract~~ concerning their prior understanding, ~~new~~ reflection on the written extracts, and questioned to keep their focus on the plot elements. ~~For~~ It would have been easy to lose their attention but they were kept on task by focusing on elements in which they had an interest - espionage, hacking, 'secret agents' etc. The task could be further refined by the inclusion of lots of smaller questions.

Yr ail wers

ADD GREF

Ymchwilydd: JOE CHUCAS

Arsylwad / Nodiadau Maes
(Addasiad o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad, amser, grŵp: 11AM TUESDAY, 8A1

Manylion y wers: (Cynnwys a ffocws -/MDaPh Pwnc- A yw e'n agos at gychwyn neu diwedd yr uned astudio? Tu fewn/tu fas? Ystod gallu? Unrhyw wybodaeth berthnasol arall?)

- MAPIO MAI BYWYD, O'R CRUD I'R ANGAU. SGWENNU
PROFIADAU BYWYD BLAENROL A'U PHYSIGRWYDD.*
CAN CYCHWYNNOL YR UNED ASTUDIO.
*YN OGystal â DOYMNIAID AM Y DYFODOL A
MYFYRDOD AR BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL MARWOLAETH.

Diwylliant y dosbarth
Beth yw 'naws' y dosbarth? Beth yw agweddau, rhagduddiadau, ymddygiadau tuag at ddysgu ar hyn o bryd?

NAWS AGORED- PYNCLAU I DRAFOD GYDA'R DDOSBARTH
CYFAN. 16th DISGYBL FELLY DIM PROBLEM
GYDA DDISGYBLAETH. POB DISGYBL YN CAEL CYFLE
I YMATEB AC ESBDONIO ENN GWATH, AC YN TALU
SYLW'N ODA.

Amcanion
Beth sy'n digwydd yn yr amgylchedd addysgu sy'n cyfathrebu pwrpas y profiadau? Beth gallwch ei arsylwi am y modd y mae gweithgareddau'r wers yn berthnasol at y pwrpasau hyn?

TRAFFODAETH AGORED OIR FATH MATH O BROFIADAU
SY'N SIAPIO BYWYD CYNNAR- COLLEDIGION,
PROFIADAU TEULUOL, GWYCLAU, CALWARAEON A'YB.
CWEITHYNAU I HELPU MYFYRDOD AR Y PWNC AR Y FORD
GWYN.

Cyfeiriad
(Beth gellir ei arsylwi sy'n helpu dysgwyr i ddeall yr hyn maent yn ymwneud ag ef?)

ROEDD HANNER CYMTAF Y WERS YN CANOLBRYNIO AR
DRAFFODAETH, A'R AIL AR SGWENNU FYNF AR

MEDDYLIAV'R PLANT,

ROEDD Y TRAFODAETH YN GALLVOGIR PLANT I
FYNEG I EI HUN A FELLY YN OSGOI &
PROBLEMAU GYDAG YMDAWELU YN YR AIL
HANNER.

Mynediad a her

Beth gellir ei arsylwi yn yr amgylchfyd sy'n galluogi ymglymiad dysgwyr? Beth gellir ei arsylwi ar lefelau her?

ROEDD AMBELL BLEMYN YN GORFFEN Y TASGLAV'N
GYNNAR A FELLY YN SYMUD YMLAEN GYDA GWAITH
YMHELLACH A OEDD YN Y WERSLYFR YN BAROD.
YN LLE DIBYNNU AR 'IMPROVISATION' ROEDD YR
ATHRAWES WEDI RHAGWELD HUN A WEDI
PARATOI GWAITH MWY HERIOL AM BLANT DEALLU.

Asesu

(Gellir arsylwi unrhyw beth ar sut defnyddir wybodaeth blaenorol dysgwyr?

Gellir arsylwi ar unrhyw beth mewn perthynas a datblygu gwybodaeth yn ystod neu ar ôl y profiad)?

ROEDD SGILIAU MYFYRDOD Y PYSGWYR YN CAEL
EI ARDDANGOS A ~~ROEDDENT~~ ROEDDENT YN CAEL
GWELLA AR EU DEALLTWRAETH O SUT I
EISBONIO A CHYFLWYNOD EU PROFIADAU I'R
DOSBARTH.

Pethau penodol / Digwyddiadau critigol

(A oes eiliadau sy'n peri i chi ystyried agweddau o arfer pan dewch ar eu traws yn nysgu'r dyfodol)?

MAE LLE PWYSIG I DRAFODAETH A SICRHAU
BOD PLANT YN GALLU MYNEG I EU HUN, A
MAE ANGEN CYTRWYSFOD RHWNG DDISGYBLAETH
A CHREADIGOL RWYD

↑ DEFNYDDIA GYMHARIAETH O YSGOLION
HYNOD DISGYBLEIG AC AG ORED.

COFNOD ADNABOD DIWYDDIAD CRITIGOL

Manylion perthnasol at cyd-destun yr ymchwil. Dyddiad/amser. Oed/cyfnod y grŵp. Ymglymiad pobl. Gwybodaeth cyd-destunol o'r nodiadau maes.	11-12th YMGLYMIAD PERTHNASOL A PHLYSIG I'R PLANT CYDA'I GILYDD. SHARAD MANWL AM EU PROFIADAU BLAENOROL A TRAFODAETH BYWOG WEDD CYMRŴD LLE.
Beth ddygwyddodd? Disgrifiad manwl o'r hyn a welsoch a'r meddyliau ar bedagogaeth ag arfer a ddaeth atoch fel canlyniad, wrth edrych ymlaen at eich maes ymchwil.	~~ANFYRDDOD~~ SAIL Y WERS OEDD MYFYRDDOD AR BROFIADAU BYWYD A'U HARWYDDOCÂD. ~~FEL PŴNC~~ [*] ROEDD ARDDULL Y WERS YN BERTHNAIOL IAWN WRTH YSTYRIED NATUR Y PŴNC. ROEDD Y DOSBARTH YN WYNOD O FYWOG, A FELLY YN MWYNHAU MYNEGI EI HUN. DAETH HI'N GLIR I FI O'R WERS ~~OD~~ FOD ANGEN TEILWRA STRWYTHUR Y WERS I 1) NATUR Y DOSBARTH A 2) NÔD Y WERS. MEWN AMBELL BWN, MAE ANGEN DISGRIBIETH A'R TRAWELLWCH I RADDAN HELAETH, OND ROEDD A'DERNYDD EFFEITHIOL IAWN O [*] DRAFODAETH A OEDD YN YNGLYMUR PLANT YN Y DASG.

Y drydedd wers

Arsylwad / Nodiadau Maes (Addasiad o Fletcher Wood (2016))	
BUGEILLIOL 8F	Ymchwilydd... JOE CHUCAS
Dyddiad, amser, grŵp: 12.40, 8F, D.MAWRTH	
Manylion y wers: (Cynnwys a ffocws -/MDaPh Pwnc- A yw e'n agos at gychwyn neu diwedd yr uned astudio? Tu fewn/tu fas? Ystod gallu? Unrhyw wybodaeth berthnasol arall?) GWERS FUGEILLIOL - FFOCUS AR RHIFEDD. DIM 'UNED ASTUDIO' PERTHNAIOL. TU FEWN. YSTOD EANG O ALLWOEDD.	
Diwylliant y dosbarth Beth yw 'naws' y dosbarth? Beth yw agweddau, rhagduddiadau, ymddygiadau tuag at ddysgu ar hyn o bryd? DISGYBLAETH EFFEITHIOL, HYDYN OED PAN ~~ARTHUR~~ AR GOLL YN TRIO DATRYS CYMEIDR, CANRANNAU NEU FFRACSIYMAU.	
Amcanion Beth sy'n digwydd yn yr amgylchedd addysgu sy'n cyfathrebu pwrpas y profiadau? Beth gallwch ei arsylwi am y modd y mae gweithgareddau'r wers yn berthnasol at y pwrpasau hyn? - DANGOSI CWESTIYMAU AR FORD GWYN - DANGOSI FIDEO O BERFFORMIAD * ~~YR~~ ~~YR~~ ~~YR~~ YR YSGOL O ~~'ARTHUR~~ BYD MEWN UNDEB 'ER MWYN ~~BY~~ CLODORI AM FYNEDI EI HUN YN GERDDOROL *RHITHIOL	
Cyfeiriad (Beth gellir ei arsylwi sy'n helpu dysgwyr i ddeall yr hyn maent yn ymwneud ag ef?) - CWESTIYMAU YSGRIFENEDIG I BROFI DEALLWRIAETH PLANT O RHIFEDD YM ARFEROL O RAN	

COFNOD ADNABOD DIWYDDIAD CRITIGOL

Manylion perthnasol at cyd-destun yr ymchwil. Dyddiad/amser. Oed/cyfnod y grŵp. Ymglymiad pobl. Gwybodaeth cyd-destunol o'r nodiadau maes.	~~2000~~ Bl. 8, ~~2000~~ Ymlyniad da ymysg y plant i gyd, Rhiledd yn ~~At~~ fwyfwr prysog fel pwnc o dan y curriculum newydd, ble mae fydd hi yn bwnn TG-AU llawn gorfodol.
Beth ddygwyddodd? Disgrifiad manwl o'r hyn a welsoch a'r meddyliau ar bedagogaeth ag arfer a ddaeth atoch fel canlyniad, wrth edrych ymlaen at eich maes ymchwil.	Er bod y plant ddim yn gyfarwydd gyda'r pwnc, roedd eu hymateb yn hych gan fod y wedi wedi i Hryddur a ette, thsol. Mynodd yr oedwng y wedi fod llaw i fwy am bob ymateb, a teimlodd y plant yn hyderus pan oeddent yn ceisio ateb cwestiwn oheryddu bod angwylch cynhybol. Roedd canolbwyntio ar beth oedd y plant yn gwybod a ddaell yn bwrdd yn caniatáu iddynt wella ar ei hyder cyn mentro y tagar onoddah.

Y bedwaredd wers

Arsylwad / Nodiadau Maes
(Addasiad o Fletcher Wood (2016))

Ymchwilydd: JOE CHUCAS

Dyddiad, amser, grŵp:

GWYDDONIAETH, 8F, 13.20PM

Manylion y wers: (Cynnwys a ffocws - /MDaPh Pwnc- A yw e'n agos at gychwyn neu diwedd yr uned astudio? Tu fewn/tu fas? Ystod gallu? Unrhyw wybodaeth berthnasol arall?)

Dechrau'r uned astudio. Nod y WERS YW CYDNABOD
PA DDEUNYDDIAN SY'N DRYLEU, TRYLOYW NEU'N
DDIDRAIDD TRWY WELD OS YW GOLEUNI YN
TREUDDIO TRWYDDYN NHW.

Diwylliant y dosbarth

Beth yw 'naws' y dosbarth? Beth yw agweddau, rhagduddiadau, ymddygiadau tuag at ddysgu ar hyn o bryd?

YMDYGIAD GWael, O BOB O Goleu DALV SYLW TRWY
GYDOL Y DYDD. DIFFYG SYLW, AMBELL BLENTYN YN
TARFU AR ~~Y~~ DRAWN, Y WERS, A DEIFYG Y
AROS AR DASG. PLANT DDIM YN DDISGYBLEDIG O
RHAN YNATEB NA CHADW SYLW.

Amcanion

Beth sy'n digwydd yn yr amgylchedd addysgu sy'n cyfathrebu pwrpas y profiadau? Beth gallwch ei arsylwi am y modd y mae gweithgareddau'r wers yn berthnasol at y pwrpasau hyn?

- ARBRAWF EFFETHIOL GAN DDEUNYDDIO
- AFFLACH LAMP I WELD PAZ OS YW CYSGOD
YN CAEL EI GREU.
- CYFLWYNIAD POWER POINT
- GWERJLYFR

Cyfeiriad

(Beth gellir ei arsylwi sy'n helpu dysgwyr i ddeall yr hyn maent yn ymwneud ag ef)?

- DEFNYPD EFFETHIOL O FORD GWYN- SLEID POWERPOINT
- GYDAG ESBONIADAU O'R GYSYNIAD O DDEUNYDDIAN

SY'N GADAEI GOLEUNI TRUYDDO - (Cylogw,
TRYLEW A DIDRAMD.

Mynediad a her

Beth gellir ei arsylwi yn yr amgylchfyd sy'n galluogi ymglymiad dysgwyr? Beth gellir ei arsylwi ar lefelau her?

- DEFNODD EFFEITHOL O AMRYW O ADNODRAV-
GWERLYER, CYFLWYNIAD, ARBRAWF, ~~TAEL~~
- GWAITH CREIDDIOL, SYML OEDD HWN. ROEDD
AMBELL BLEMYN WEDD GWLLVOG WEDI SYR AEDU
OHERWYDD NAD OEDD HER IDDANT. DOEDD Y
GWAITH DDIM YN RHY HERIOL I BLANT ERAILL OND
NAD OEDDENT YN TALU SYLLW.

Asesu

(Gellir arsylwi unrhyw beth ar sut defnyddir wybodaeth blaenorol dysgwyr?

Gellir arsylwi ar unrhyw beth mewn perthynas a datblygu gwybodaeth yn ystod neu ar ôl y profiad)?

PWNC NEWYDD OEDD HWN I'R PLANT. MAE'N GLIR
BOD ANGEN TASGAV JY'N AMRYLID
(ARBRAWF, TRAFODAETH, GWAITH)

Pethau penodol / Digwyddiadau critigol

(A oes eiliadau sy'n peri i chi ystyried agweddau o arfer pan dewch ar eu traws yn nysgu'r dyfodol)?

- Cymreictod - Un disgybl yn CAEL EU DAL YN
SIARAD SAESNEG NIFER O WEITHIAR.
- UN PLENTYN YN COLLI TRYLYDD Y WERS O
DDIFYG TALU SYLLW A DDISGYBLOETH

COFNOD ADNABOD DIWYDDIAD CRITIGOL

Manylion perthnasol at cyd-destun yr ymchwil. Dyddiad/amser. Oed/cyfnod y grŵp. Ymglymiad pobl. Gwybodaeth cyd-destunol o'r nodiadau maes.	29/10/2020, 13.20 YP, 19 ddisgrybl. Bl. 8. Nifer o blant yn tarfu ar y wers ac yn methu dilyn cyfarwyddyd yr athrawes. Llawer o widdi, un plentyn yn taflu papur at un arall, a'r plant dugu bledig yn collu.
Beth ddygwyddodd? Disgrifiad manwl o'r hyn a welsoch a'r meddyliau ar bedagogaeth ag arfer a ddaeth atoch fel canlyniad, wrth edrych ymlaen at eich maes ymchwil.	Arsylwais ar wers ym y prynhawn ble oedd ambell plentyn yn hynod o aflonydd, heb wrando ar athrawes am gyfnod hir, ac ddim yn ymrwymo at y dasg o'i flaen. Ar ôl cyfnod o esbonio natur y dasg, ymgymryd ag arbrawf ac esbonio'r cysyniadau perthnasol, gofynnodd yr athrawes i'r plant ddistewi a chyflawni tasg syml o esbonio enghreifftiau o ddeunydd trwylo a thryleu. Yn syth, ymatebodd un plentyn gyda 'Beth ni'n neud?'. Mae'n bodi fod gwaith Dr. William ar

ymglynu plant (e.e. trwy ddefnyddio ffyn loli pop) yn berthnasol fan hyn.